**ADRODDIAD I'R CABINET**
25 HYDREF 2022

**Aelod Cabinet:** Cynghorydd Ioan Thomas, Aelod Cabinet Cyllid

**Pwnc:** Rhaglen Gyfalaf 2022/23 –
Adolygiad Diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2022)

**Swyddog Cyswllt:** Ffion Madog Evans, Uwch Reolwr Cyllid

---

**Penderfyniad a geisir**

- Derbyn yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2022) o'r rhaglen gyfalaf.

- Cymeradwyo'r ariannu addasedig a gyflwynir yn rhan 4 o'r adroddiad, sef:
  - defnydd o amryw ffynonellau i ariannu gwir lithriadau gwerth cyfanswm o £26,751,000 o 2021/22,
  - dim newid mewn defnydd o fenthyca,
  - cynnydd o £7,396,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau,
  - dim newid mewn defnydd o dderbyniadau cyfalaf,
  - cynnydd o £2,156,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw,
  - cynnydd o £13,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf, a
  - cynnydd o £538,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

---

**1. Cyflwyniad / Crynodeb**

Cyflwynir yr adroddiad technegol yma fel rhan o'r drefn adolygu cyllideb 2022/23. Prif ddiben yr adroddiad yw cyflwyno'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig, a chymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol. Mae crynodeb yn rhan 3 a rhan 4 o'r adroddiad, gyda'r argymhellion yn rhan 6:

Rhan 3**:** Dadansoddiad fesul Adran o'r rhaglen gyfalaf £136.338m am y 3 blynedd 2022/23 – 2024/25.

Rhan 4: Ffynonellau ariannu'r cynnydd net oddeutu £36.854m ers y gyllideb agoriadol, gyda £26.751m o'r cynnydd oherwydd llithriadau o 2021/22 (adroddwyd eisoes fel rhan o'r llithriadau yn adolygiad diwedd blwyddyn ar 14 Mehefin 2022).

Rhan 5: Manylder grantiau ychwanegol ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol.

Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3) a'i ariannu (rhan 4).

Mae gweddill yr adroddiad er gwybodaeth.

## 2. Prif Gasgliadau

Y prif gasgliadau sydd yn codi o'r sefyllfa ddiwygiedig yw :

- Fod cynlluniau pendant mewn lle i fuddsoddi tua £79.8m yn 2022/23 ar gynlluniau cyfalaf, gyda £21.1m (27%) ohono wedi'i ariannu trwy ddenu grantiau penodol.

- Mae effaith heriau ariannol diweddar yn parhau ar y rhaglen gyfalaf ac i'w weld yn y ffigyrau a adroddir yn Atodiad C, gyda dim ond 11% o'r gyllideb sydd wedi ei wario hyd at ddiwedd Awst eleni, o'i gymharu â 16% dros yr un cyfnod flwyddyn yn ôl a 13% ddwy flynedd yn ôl.

- Mae £12.1m ychwanegol o wariant arfaethedig wedi'i ail-broffilio o 2022/23 i 2023/24 a 2024/25, ond ni achoswyd unrhyw golled ariannu i'r Cyngor ble gwelwyd cynlluniau yn llithro.

## 3. Rhaglen Gyfalaf 2022/23 i 2024/25

Gweler isod y rhaglen gyfalaf arfaethedig ddiwygiedig ar ddiwedd Awst 2022.

| ADRAN | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | CYFANSWM | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Addysg | 11,412 | 14,579 | 2,955 | 28,946 | 6,030 | 2,901 | 3,129 |
| Amgylchedd | 7,926 | 190 | 100 | 8,216 | 6,927 | 3,924 | 3,003 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyllid | 1,828 | 837 | 619 | 3,284 | 546 | 546 | - |
| Economi a Chymuned | 2,971 | 927 | 150 | 4,048 | 1,803 | 832 | 971 |
| Tai ac Eiddo | 28,201 | 8,577 | 7,007 | 43,785 | 8,565 | 5,772 | 2,793 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 4,151 | 2,875 | - | 7,026 | 3,041 | 3,011 | 30 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,421 | 250 | - | 1,671 | 1,189 | 1,004 | 185 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 11,088 | 2,399 | 5,686 | 19,173 | 3,734 | 3,205 | 529 |
| Ymgynghoriaeth | 5,506 | 3,082 | - | 8,588 | 1,469 | 1,457 | 12 |
| Corfforaethol | 5,267 | 3,271 | 3,063 | 11,601 | 3,550 | 4,099 | (549) |
| **CYFANSWM** | **79,771** | **36,987** | **19,580** | **136,338** | **36,854** | **26,751** | **10,103** |

4. **Newidiadau i'r Ffynonellau Ariannu**

Mae cynnydd o £36.854m yn y gyllideb ar gyfer y rhaglen gyfalaf dair blynedd ers sefyllfa'r gyllideb wreiddiol. Nodir isod y ffynonellau ariannu arfaethedig ar gyfer hyn:

| ARIANNU | ADOLYGIAD DIWEDD AWST | | | | CYNNYDD / (LLEIHAD) ERS Y GYLLIDEB AGORIADOL | ADDASIAD LLITHRIAD | NEWIDIADAU ERAILL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2022/23 | 2023/24 | 2024/25 | CYFANSWM | | | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Benthyca gyda chefnogaeth | 8,238 | 9,173 | 9,173 | 26,584 | 1,358 | 1,358 | - |
| Benthyca Arall | 7,592 | 5,195 | 3,137 | 15,924 | 1,635 | 1,635 | - |
| Grantiau a Chyfraniadau | 21,143 | 8,258 | 54 | 29,455 | 16,440 | 9,044 | 7,396 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 774 | 39 | 0 | 813 | 63 | 63 | - |
| Refeniw Adrannol a Chorfforaethol | 3,261 | 30 | 0 | 3,291 | 2,253 | 97 | 2,156 |
| Cronfa Cyfalaf | 13,061 | 5,392 | 0 | 18,453 | 8,916 | 8,903 | 13 |
| Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill | 25,702 | 8,900 | 7,216 | 41,818 | 6,189 | 5,651 | 538 |
| **CYFANSWM** | **79,771** | **36,987** | **19,580** | **136,338** | **36,854** | **26,751** | **10,103** |

5. **Grantiau Ychwanegol**

Ers sefydlu'r gyllideb wreiddiol, ddiwedd Mawrth, llwyddodd y Cyngor i ddenu'r grantiau canlynol ychwanegol o £7,422k. Mae nifer o addasiadau gan gynnwys lleihad o £26k ar gynlluniau oedd yn is na'r amcan gwreiddiol yn dod â chyfanswm y symudiad i £7,396k (gweler Atodiad A am fwy o fanylion) :

- £1,570k Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim
- £897k Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Defnydd Cymunedol Ysgolion
- £850k Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru
- £692k Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) tuag at gynlluniau gwledig
- £587k Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru
- £558k Grantiau Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru a Chyfraniadau eraill tuag at ail wynebu Maes Parcio Y Glyn Llanberis a chynlluniau eraill Parciau Gwledig
- £346k Grant Creu Lleoedd gan Lywodraeth Cymru – i wella eiddo
- £336k Grant gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) tuag at nifer o wahanol gynlluniau gwledig gan gynnwys Llwybr yr Arfordir
- £303k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig gan

gynnwys tirweddau cynaladwy

- £291k Grantiau Tai gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys Digartrefedd Rhan 2 a Trawsnewid Trefi

- £247k Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol

- £235k Grant Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru

- £184k Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynllun i ddelio gyda Gwywiad yr Onnen

- £169k Grant Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru – Cynllun Meithrin Maenofferen

- £157k Grantiau o'r Gronfa Rhyddhau Tir gan Lywodraeth Cymru

## 6. Argymhellion

**Gofynnir i'r Cabinet:**

- **dderbyn y rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 i 2024/25, a**
- **cymeradwyo'r ffynonellau ariannu perthnasol (rhan 4 uchod).**

## 7. Rhesymau Dros Argymell y Penderfyniad

Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf, a rhaid i'r Cabinet gymeradwyo'r rhaglen gyfalaf a'r ffynonellau ariannu.

Mater o drefn yw ymgorffori ariannu trwy grant, ond hefyd mae angen delio gyda sefyllfaoedd lle bu newid rhwng blynyddoedd mewn proffil gwario a newid mewn gwerth cyfraniadau a derbyniadau cyfalaf.

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2022/23 – 2024/25.

## 8. Ystyriaethau Perthnasol

Materion technegol ynghylch ariannu'r cynlluniau sydd gerbron ac mae ymhlygiadau a dadleuon eisoes wedi'u cyfarch wrth fabwysiadu'r cynlluniau cyfalaf unigol.

## 9. Camau Nesaf ac Amserlen

Gweithredu ar yr argymhellion i ariannu'r rhaglen.

**Atodiadau**:
- Atodiad A: Prif newidiadau fesul ffynhonnell ariannu
- Atodiad B: Symudiadau o 2022/23 i 2023/24
- Atodiad C: Gwariant 5 mis cyntaf 2022/23

----------------------------

**ATODIAD A**

**Manylion y Prif Newididau**

Gweler isod y cynlluniau perthnasol sydd yn achosi'r prif newidiadau i'r ffynonellau ariannu ers yr adolygiad diwethaf :

| | 2022/23<br>£'000 | 2023/24-2024/25<br>£'000 |
|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau** | | |
| • Grant Cyfalaf Prydau Ysgol am Ddim *(Adran Addysg).* | 1,570 | |
| • Grant Cymunedau Dysgu Cynaliadwy – Defnydd Cymunedol Ysgolion *(Adran Addysg).* | 897 | |
| • Grant Creu Lleoedd gan Lywodraeth Cymru – i wella eiddo *(Adran Economi a Chymuned).* | 346 | |
| • Grantiau Pethau Pwysig gan Lywodraeth Cymru a Chyfraniadau eraill tuag at ail wynebu Maes Parcio Y Glyn, Llanberis a chynlluniau eraill Parciau Gwledig *(Adran Economi a Chymuned).* | 558 | |
| • Grant Dechrau'n Deg gan Lywodraeth Cymru – Cynllun Meithrin Maenofferen *(Adran Plant a Theuluoedd).* | 169 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynllun i ddelio gyda Gwywiad yr Onnen (*Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 184 | |
| • Grant Cyfalaf Diogelwch y Ffyrdd gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau 20 milltir yr awr *(Adran Amgylchedd).* | 850 | |
| • Grantiau o'r Gronfa Trafnidiaeth Lleol (LTF) a'r Gronfa Teithio Llesol (ATF) gan Lywodraeth Cymru ar gyfer nifer o wahanol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 587 | |
| • Grantiau gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) tuag at nifer o wahanol gynlluniau gwledig gan gynnwys Llwybr yr Arfordir *(Adran Amgylchedd).* | 336 | |
| • Grant Llywodraeth Cymru tuag at gynlluniau gwledig gan gynnwys tirweddau cynaladwy *(Adran Amgylchedd).* | 303 | |
| • Grant Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC) tuag at gynlluniau gwledig gan gynnwys Llefydd Lleol i Natur *(Adran Amgylchedd).* | 692 | |

| | |
|---|---|
| • Grant Galluogi, maes tai, gan Lywodraeth Cymru i hwyluso byw'n annibynnol *(Adran Tai ac Eiddo).* | 247 |
| • Grant Sipsiwn a Theithwyr gan Lywodraeth Cymru tuag at Safle Sipsiwn Llandygai *(Adran Tai ac Eiddo).* | 235 |
| • Grantiau o'r Gronfa Rhyddhau Tir gan Lywodraeth Cymru *(Adran Tai ac Eiddo).* | 157 |
| • Grantiau Tai gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys Digartrefedd Rhan 2 a Trawsnewid Trefi *(Adran Tai ac Eiddo).* | 291 |
| **Refeniw Adrannol a Chorfforaethol** | |
| • Cyfraniadau Ysgolion tuag at amrywiol gynlluniau gan gynnwys cerbydau *(Adran Addysg).* | 112 |
| • Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Amgylchedd).* | 135 |
| • Trosglwyddo elfen o'r gyllideb refeniw i ariannu cynlluniau Cynnal a Chadw sydd bellach yn gyfalaf o ran natur *(Adran Tai ac Eiddo).* | 1,879 |
| **Cronfeydd Adnewyddu ac Eraill** | |
| • Cyfraniadau cyfatebol/ychwanegol tuag at amrywiol gynlluniau *(Adran Economi a Chymuned; Adran Amgylchedd; Adran Tai ac Eiddo).* | 177 |
| • Adnewyddu cerbydau ac offer *(Adran Plant a Theuluoedd; Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol).* | 362 |

---------------------------

**ATODIAD B**

**Manylion Ail-broffilio**

Gweler isod y prif gynlluniau sydd wedi eu hail-broffilio ers y gyllideb wreiddiol:

| | **2022/23 £'000** | **2023/24 £'000** |
|---|---|---|
| Cynlluniau Ysgolion (Cymunedau Dysgu Cynaladwy ac Eraill) *(Adran Addysg)* | (5,114) | 5,114 |
| Adfywio Tref a Glannau Caernarfon *(Adran Economi a Chymuned)* | (140) | 140 |
| Cynlluniau Morwrol, Parciau Gwledig a Hamdden *(Adran Economi a Chymuned)* | (142) | 142 |
| Cynllun Buddsoddiad Neuadd Dwyfor *(Adran Economi a Chymuned)* | (465) | 465 |
| Cynllun Canolfan Integredig Maesgeirchen *(Adran Plant a Theuluoedd)* | (250) | 250 |
| Hwb Iechyd a Gofal Penygroes *(Adran Oedolion,Iechyd a Llesiant)* | (1,625) | 1,625 |
| Cynlluniau Sefydliadau Preswyl a Gofal Dydd Oedolion *(Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant)* | (625) | 625 |
| Rhaglen Atal Dirywiad Ffyrdd *(Adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol)* | 1,000 | (1,000) |
| Cynlluniau Atal Llifogydd *(Adran Ymgynghoriaeth)* | (3,039) | 3,039 |
| Ail-wynebu Meysydd Parcio *(Adran Amgylchedd)* | (69) | 69 |
| Cynlluniau Addasiadau i'r Anabl a Swyddfeydd *(Adran Tai ac Eiddo)* | (123) | 123 |
| Cynlluniau Rheoli Carbon y Cyngor *(Adran Tai ac Eiddo)* | (1,514) | 1,514 |

**Noder:**
Ni fydd yr ail-broffilio uchod yn golygu unrhyw golled grant.
Mae amrywiol resymau dilys tu ôl i'r ail-broffilio mewn sawl achos, ond gall yr oedi cyn gweithredu'r cynlluniau yma olygu bod gwasanaethau yn ymdopi'n hirach gyda'r asedau presennol heb eu gwella.

**ATODIAD C**

**Gwariant Cyfalaf 5 Mis Cyntaf 2022/23**

| **CRYNODEB** | **RHAGLEN GYFALAF BLWYDDYN LAWN (adolygwyd Awst) 2022/23 £'000** | **GWIR WARIANT 5 MIS HYD AT 31/08/2022 £'000** |
|---|---:|---:|
| Addysg | 11,412 | 1,759 |
| Amgylchedd | 7,926 | 323 |
| Cefnogaeth Gorfforaethol | - | - |
| Cyllid (a Thechnoleg Gwybodaeth) | 1,828 | 381 |
| Economi a Chymuned | 2,971 | 742 |
| Tai ac Eiddo | 28,201 | 2,724 |
| Oedolion, Iechyd a Llesiant | 4,151 | 75 |
| Plant a Chefnogi Teuluoedd | 1,421 | 257 |
| Priffyrdd a Bwrdeistrefol | 11,088 | 2,791 |
| Ymgynghoriaeth | 5,506 | 68 |
| Corfforaethol | 5,267 | - |
| **CYFANSWM** | **79,771** | **9,120** |

**Noder:**
Mae’r gyfran sydd wedi’i wario eleni (11%) yn is na’r sefyllfa adeg yma'r llynedd (gwariant 5 mis 2021/22 yn 16%), ac yn is na dwy flynedd yn ôl (13% yn 2020/21).